PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

DYDD MERCHER, 3 GORFFENNAF 2024

PRESENNOL Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

Cynghorwyr :
G. Davies E.M.J.G. Schiavone

Hefyd yn bresennol:
M. Jacob, Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd
A. John, Cyfreithiwr Cynorthwyol
A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr
K. Phillips, Rheolwr Prosiect LINC
S. Williams, Uwch Swyddog Trefniant Ysgolion
G. Thomas, Swyddog Cynorthwyol Derbyn Disgyblion i'r Ysgol
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 10.14 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheruiad am absenoldeb wrth Cyngorydd R. Sparks.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. COFNODION

3.1. 5 MEHEFIN 2024 - 10.00YB

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 05 Mehefin 2024 [10:00yb] gan eu bod yn gofnod cywir.

3.2. 5 MEHEFIN 2024 - 10.10YB

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 05 Mehefin 2024 [10:10yb] gan eu bod yn gofnod cywir.

3.3. 5 MEHEFIN 2024 - 10.20YB

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 05 Mehefin 2024 [10:20yb] gan eu bod yn gofnod cywir.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

3.4. 5 MEHEFIN 2024 - 10.30YB

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 05 Mehefin 2024 [10:30yb] gan eu bod yn gofnod cywir.

4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

5. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD C.T. YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau ysgrifenedig yr apelydd ynghylch penderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod rhoi cludiant ysgol am ddim i C.T i ysgol a oedd o fewn y pellter cerdded statudol o gyfeiriad y cartref, sef 3 milltir, ac felly nid oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellir ym mholisi'r Cyngor ar gyfer darparu cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i amgylchiadau unigol yr achos, ynghyd â sylwadau'r swyddogion adrannol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Pholisi'r Awdurdod ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, wrthod yr apêl gan C.T am gludiant ysgol oherwydd bod yr ysgol o fewn y pellter cerdded statudol.

_____ _____

CHAIR **DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf